**Mark Drakeford AM/AC**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol**
**Cabinet Secretary for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Simon Thomas AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

28 Medi 2016

Annwyl Simon

Yn ystod proses graffu Cam 1 y Pwyllgor Cyllid ar y Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru), ymrwymais i ddarparu rhagor o wybodaeth er mwyn:

1) Egluro ein hagwedd at gosbau, a darparu crynodeb o'r dull sy'n cael ei gymryd mewn perthynas â'r gyfundrefn cosbau trethi datganoledig

2) Rhoi mwy o eglurder ynghylch y trefniadau sydd yn eu lle ar gyfer trafodiadau ar draws ffiniau a gwybodaeth am sut y bydd y sefyllfa yng Nghymru yn cymharu â gwledydd eraill.

**Cosbau**

Mae defnyddio cosbau i atal peidio â chydymffurfio wedi hen ennill ei blwyf yn y DU ac mewn ardaloedd eraill fel ffordd o ddiogelu refeniw trethi. I'r perwyl hwn, mae cyfres o gosbau am beidio â chydymffurfio â'r system dreth ddatganoledig yn cael ei darparu gan Ran 5 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016.

Mae'r Rhan hon o'r Ddeddf honno yn gosod cosbau mewn amgylchiadau lle y bo:

i. trethdalwr yn methu â chyflwyno datganiad treth
ii. trethdalwr yn methu â thalu treth ddatganoledig yn brydlon
iii. trethdalwr yn cyflwyno i Awdurdod Cyllid Cymru ddogfen (gan gynnwys datganiad) sy'n cynnwys gwallau
iv. trethdalwr yn methu â chadw dogfennau penodol yn ymwneud â hawliadau a dychweliadau
v. person yn methu â chydymffurfio ag ymchwiliadau penodol a gynhelir gan Awdurdod Cyllid Cymru (er enghraifft, hysbysiadau gwybodaeth).

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r lefelau a'r mathau o gosbau a roddir gan Awdurdod Cyllid Cymru, ac unrhyw daliadau llog cysylltiedig, yn gyffredinol gyson â'r rheini a roddir gan HMRC a Revenue Scotland ar hyn o bryd. Ein hegwyddorion treth, sef tegwch a darparu sefydlogrwydd a sicrwydd i drethdalwyr, sy'n arwain y dull hwn. Mae symiau'r cosbau sy'n agored i gael eu talu yn cael eu cyflwyno'n llawn yn Neddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016.

**Pa fesurau diogelu sydd ar waith?**

Mae'n bwysig nodi bod Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 eisoes yn darparu mesurau diogelu pwysig a chynhwysfawr sy'n sicrhau bod cydbwysedd priodol yn cael ei gynnal wrth ddefnyddio cosbau rhwng diogelu refeniw trethi a diogelu hawliau trethdalwyr unigol.

Mae'r mesurau diogelu hyn yn cynnwys rhoi pwerau disgresiwn i Awdurdod Cyllid Cymru leihau cosb mewn amgylchiadau penodol, er enghraifft pan fo gan berson "esgus rhesymol" dros fethu â chydymffurfio â rhwymedigaeth benodol, neu pan fo'r gosb wedi'i rhoi o ganlyniad i "amgylchiadau arbennig". Ynghyd â'r pwerau disgresiwn hyn, bydd gan berson sy'n agored i gael cosb hawl i ofyn i Awdurdod Cyllid Cymru gynnal ei adolygiad ei hun o'i benderfyniad, neu yn y pen draw, i gyflwyno apêl i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf yn erbyn penderfyniad Awdurdod Cyllid Cymru.

**Cyflwyno cosbau newydd a diwygio cosbau presennol**

Mae Adran 156 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth, drwy reoliadau yn amodol ar y weithdrefn gadarnhaol, ynghylch symiau cosbau a'r broses yn gysylltiedig â'u gweinyddu. Gellir gwneud rheoliadau, er enghraifft, i annog cydymffurfiaeth yng Nghymru lle, ar sail profiad gweithredol, mae'n amlwg bod angen gwneud mwy i atal achosion o beidio â chydymffurfio, neu fel arall i sicrhau bod y sefyllfa yng Nghymru yn cymharu â gweddill y DU.

Nid yw cwmpas y pŵer a ddarperir gan adran 156 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 yn caniatáu i Weinidogion Cymru greu cosbau newydd drwy reoliadau. Mae hyn yn gwrthgyferbynnu â chyfundrefn trethi datganoledig yr Alban lle gall rheoliadau, ymhlith pethau eraill, greu cosbau newydd.

Bydd datblygiadau ehangach mewn deddfwriaeth yn ymwneud â threthi ar draws y DU yn golygu y gallai fod angen inni ymateb yn brydlon ac yn gymesur i newidiadau yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod y gyfundrefn trethi datganoledig yn cael ei diogelu'n ddigonol. Yn yr achos hwn, mae yna ddadl gyfartal iawn rhwng creu cosbau drwy reoliadau, yn hytrach na deddfwriaeth sylfaenol ac ar hyn o bryd rwy'n cefnogi'r opsiwn o ddefnyddio deddfwriaeth sylfaenol oherwydd yr effaith bosibl ar drethdalwyr. Fodd bynnag, byddwn yn croesawu sylwadau'r Pwyllgor ar y mater penodol hwn, a'i sylwadau hefyd ynghylch a ddylid diwygio adran 156 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 i alluogi cosbau newydd i gael eu creu drwy reoliadau.

**Trefniadau ar draws ffiniau**

Mae Adran 9 y Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) yn cael ei chynnwys yn ein deddfwriaeth o ganlyniad i Ddeddf Cymru 2014. Mae'n egluro y dylai unrhyw drafodiad tir sy'n cynnwys tir yng Nghymru a thir yn Lloegr gael ei drin fel dau drafodiad; un trafodiad ar gyfer y tir yng Nghymru ac un arall ar gyfer y tir yn Lloegr. Mae

ystyriaeth yn cael ei rhoi i rannu'r ddau ar sail 'dosraniad teg a rhesymol'. Mae'r rheol hon yn amlwg yn gymwys i dir sy'n gorwedd ar y ffin.

Fodd bynnag, bydd yr un mor wir pan fydd trethdalwr yn prynu nifer o eiddo fel rhan o un fargen (er enghraifft, prynu 30 o siopau, a 5 ohonynt yng Nghymru a 25 ohonynt yn Lloegr (heb fod un ohonynt ar y ffin) am bris y cytunwyd arno o £15 miliwn). Bydd rhaid i'r ystyriaeth a roddir gael ei rhannu rhwng trafodiad y bydd y Dreth Trafodiadau Tir yn gymwys iddo a thrafodiad y bydd Treth Dir y Dreth Stamp yn gymwys iddo.

Mae HMRC wedi rhoi gwybod inni, er nad yw deddfwriaeth Treth Dir y Dreth Stamp (nac ychwaith y Dreth Trafodiadau Tir ac Adeiladau yn yr Alban) yn cynnwys y rheolau hyn sy'n ymwneud â thrafodiadau tir sy'n croesi'r ffin rhwng yr Alban a Lloegr, nac rhwng Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon, rhaid bydd cymhwyso'r un dull o ddosbarthiad teg a rhesymol. Er enghraifft, os yw fferm sy'n croesi'r ffin rhwng Gogledd Iwerddon a'r Weriniaeth yn cael ei gwerthu a'r ystyriaeth y cytunwyd arni yn un ffigur, yna bydd angen rhannu'r swm hwnnw'n ddau fel bod modd codi treth ar y ddau swm; Treth Dir y Dreth Stamp yng Ngogledd Iwerddon a threth stamp ar y tir sydd yng Ngweriniaeth Iwerddon.

**Tabl o ddarpariaethau tebyg**

At hynny, roeddwn i am achub ar y cyfle hwn hefyd i roi gwybod ichi fod fy swyddogion wedi rhoi tabl o ddarpariaethau tebyg mewn deddfwriaeth Treth Dir y Dreth Stamp a'r Dreth Trafodiadau Tir ac Adeiladau i gynorthwyo'r tîm o glercod. Diben y tabl hwn yw tynnu sylw at ddeddfwriaeth bresennol y DU a'r Alban lle mae darpariaethau tebyg yn cael eu gwneud i'r rheini yn y Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru). Hyderaf y bydd hwn yn ganllaw i gefnogi gwaith gwerthfawr Comisiwn y Cynulliad.

**Yn gywir**



**Mark Drakeford AM/AC**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Cabinet Secretary for Finance and Local Government